RHAGLEN ADDYSG PDSA

Teitl

Yn yr Ysbyty Anifeiliaid Anwes

Cyfnod allweddol

1 & 2

Testun

Bioleg a Gyrfaoedd

Pwnc

Dinasyddiaeth/ Gwyddoniaeth

Gweithgareddau a Gwmpesir

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Taith anifail anwes drwy Ysbyty Anifeiliaid Anwes PDSA

Ystyried teimladau (a oes gan anifeiliaid deimladau megis ofn ac a ydyn nhw'n teimlo poen?)

Deilliannau Cyflawni

Rwy'n gallu deall y gall beth rwy'n ei wneud, a'r pethau rwy'n eu defnyddio, gael effaith ar fy amgylchedd ac ar bethau byw.

Rwy'n gallu adnabod a chymharu rhai nodweddion sydd gan bethau byw a thrafod tebygrwydd a gwahaniaethau.

Rwy'n gallu nodi pethau yn yr amgylchedd a all fod yn niweidiol, a gallu gweithredu er mwyn atal niwed i mi fy hun ac i eraill.

Rwy'n gallu bod yn ymwybodol o sut mae teimladau'n cael eu cyfleu drwy weithredoedd.

Amcanion dysgu

Dylai disgyblion fod yn ymwybodol o'r pethau mae angen i bobl ac anifeiliaid eu gwneud i gadw'n iach.

Dylai disgyblion fod yn ymwybodol o'r daith mae anifail anwes yn ei dilyn wrth ymweld ag Ysbyty Anifeiliaid Anwes.

Dylai disgyblion fod yn ymwybodol o'r swyddi mae pobl yn eu gwneud yn ein Hysbytai Anifeiliaid Anwes.

Deilliannau dysgu

Pawb: Bydd pawb yn deall beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i gadw'n iach.

Y rhan fwyaf: Bydd y rhan fwyaf yn gallu siarad am y daith mae anifail anwes yn ei dilyn wrth ymweld ag Ysbyty Anifeiliaid Anwes.

Rhai: Bydd rhai yn deall y swyddi a gyflawnir yn ein Hysbytai Anifeiliaid Anwes.

Geiriau allweddol

Ysbyty	Anghenion Lles	Iach	Meddygon	Anhwylus
Anifail anwes	Milfeddyg	Nyrs	Pelydr X	Ymddygiad
PDSA	Archwilio	Fferyllfa	Llawdriniaeth	Cytiau ci
Elusen	Gwrthrych Estron	Derbynfa	Ymgynghori	Meddyginiaeth

Cwestiynau allweddol

Pam mae angen milfeddygon a nyrsys milfeddygol ar anifeiliaid anwes?
Sut mae meddygon a nyrsys yn helpu?
Beth yw elusen?
Pa wrthrych mae Cyril wedi'i lyncu?
Beth ydych chi'n ei wneud i gadw'n iach?

Adnoddau

Cyflwyniad
Pen a phapur
Byrddau gwyn, os ar gael

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 1: Cyflwyniad	Cyflwynwch PDSA.		2 funud
Sleid 2: Trosolwg o PDSA	Esboniwch fod PDSA yn elusen sy'n gofalu am anifeiliaid anwes pan na all perchnogion fforddio mynd â nhw at y milfeddyg.	Trafodaeth mewn parau ac yna atebion: - Pam mae rôl milfeddygon a nyrsys milfeddygol yn bwysig? - Beth yw elusen? - Beth ydych chi'n meddwl fyddai'n digwydd i'r anifeiliaid anwes sâl a'r rhai sydd wedi'u hanafu pe na bai PDSA yn bodoli?	2/3 munud
Sleid 3: Yr hyn sydd ei angen ar anifeiliaid anwes	Dangoswch yr eiconau.	Defnyddiwch symudiadau. E.e. Yr amgylchedd - gwnewch dŷ gyda'ch breichiau, Deiet - symudiad bwyta, Ymddygiad - naid seren, Iechyd - gwnewch galon gyda'ch dwylo, Cwmnïaeth - cysylltu breichiau â'r unigolyn nesaf atyn nhw.	4/5 munud
Sleid 4: Gweithgaredd Cadw'n Iach	Gofynnwch i'r disgyblion drafod y pethau maen nhw'n eu gwneud i gadw'n iach.	Mae'r disgyblion yn gweithio naill ai mewn grwpiau neu mewn parau, a gall fod yn drafodaeth neu'n weithgaredd ysgrifenedig yn dibynnu ar amser.	2/3 munud

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

RHAGLEN ADDYSG PDSA

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 5: Atebion	Defnyddiwch y sleid hon fel yr atebion. Soniwch am bob delwedd yn gyflym. Bydd y disgyblion yn rhoi eu dwylo i fyny os oedd yr ateb ganddyn nhw. Soniwch fod gan anifeiliaid anghenion tebyg.	Mae rhai disgyblion yn rhannu eu hatebion â'r dosbarth. Gellir gwneud hyn cyn i chi ddangos y delweddau neu ar ôl hynny (gofynnwch a oedd gan unrhyw un unrhyw atebion nad oedd yn y lluniau).	1/2 funud
Sleid 6: Sut mae meddygon a nyrsys yn helpu?	Defnyddiwch y delweddau ar y sleid i ddweud wrth y disgyblion y gall meddygon a nyrsys eich helpu chi i gadw'n iach. Soniwch am bob delwedd yn gyflym.		2 funud
Sleid 7: Pam mae angen milfeddygon a nyrsys ar anifeiliaid anwes?	Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am resymau pam mae angen milfeddygon a nyrsys milfeddygol ar anifeiliaid anwes.	Gall hon fod yn dasg lafar neu ysgrifenedig yn dibynnu ar faint o amser rydych chi am ei dreulio ar y gweithgaredd penodol hwn. Gallech chi ofyn am ddwylo i fyny os ydych chi'n brin o amser.	2/3 munud
Sleid 8: Taith Oldbury	Chwaraewch yr ymweliad fideo.		2 funud
Sleid 9: Cyril	Gofynnwch y cwestiynau yn nodiadau'r sleidiau i'r disgyblion ac esboniwch symptomau Cyril.		2 funud
Sleid 10: Derbynfa/Ardal aros	Esboniwch beth sy'n digwydd pan fydd Cyril yn cyrraedd a chymharwch hyn â'r disgyblion yn cyrraedd y feddygfa neu'r deintydd.		1 funud
Sleid 11: Ystafell Ymgynghori	Defnyddiwch nodiadau'r sleidiau i esbonio'r hyn y gallai milfeddyg neu nyrs filfeddygol chwilio amdano yn ystod ymgynghoriad. Cyfeiriwch at bob un fel pe bai Cyril yn cael ei archwilio.	Gallech chi ddefnyddio ci tegan meddal a gofyn i wirfoddolwr wirio'r gwahanol bethau.	4/5 munud
Sleid 12: Pelydr X	Esboniwch beth yw pelydr-x a bod angen un ar Cyril. Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw am weld pelydr-x Cyril.		2 funud
Sleid 13: Pelydr-x Cyril	Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth mae Cyril wedi'i lyncu.	Gallai'r disgyblion ysgrifennu eu hateb neu drafod mewn parau. Gofynnwch i'r grŵp am awgrymiadau.	1/2 funud
Sleid 14: Gweithgaredd pelydr-X	Esboniwch y gweithgaredd.	Mae'r disgyblion yn pleidleisio ar ba ddelwedd sy'n cyfateb i bob pelydr-x.	2/3 munud
Sleid 15: Paratoi ar gyfer Llawdriniaeth	Dywedwch wrth y disgyblion fod angen llawdriniaeth ar Cyril i dynnu'r gwrthrych. Esboniwch fod rhaid paratoi'r anifeiliaid anwes cyn iddyn nhw fynd i mewn i gael llawdriniaeth.		2/3 munud

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

RHAGLEN ADDYSG PDSA

Nodiadau

Mae'r amseriadau'n fras ac efallai y bydd angen eu haddasu yn dibynnu ar eich amserlen a'ch dosbarth.

Gellir gwneud unrhyw weithgaredd llafar ar bapur hefyd.
Mae'n dibynnu ar yr ystafell a'r amser.

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 16: Llawdriniaeth	Esboniwch swydd yr anaesethetegydd a dangoswch yr offer a ddefnyddir.		1/2 funud
Sleid 17: Cytiau ci	Esboniwch fod angen gorffwys ar Cyril cyn iddo allu mynd adref.	Gofynnir i'r disgyblion pwy maen nhw'n meddwl sy'n gwneud y gwaith glanhau ac esboniwch rôl gwirfoddolwyr a gyrfaoedd eraill mewn ysbytai.	1/2 funud
Sleid 18: Fferyllfa	Defnyddiwch nodiadau'r sleidiau i siarad am y pethau y bydd angen i Cyril fynd â nhw adref gydag ef. Gallech chi gymharu hyn â meddyginiaethau mae'r disgyblion yn eu cymryd pan fyddan nhw'n sâl.		1/2 funud
Sleid 19: Amser mynd adref	Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw'n meddwl y bydd mab Lesley'n gadael ei deganau dros y llawr eto yn y dyfodol ac a fydden nhw'n hoffi gweithio mewn Ysbyty Anifeiliaid Anwes pan fyddan nhw'n hŷn. Esboniwch y bydd angen iddyn nhw weithio'n galed mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth.		1/2 funud
Sleid 20 - Stori Marley	Chwaraewch y fideo o stori Marley.		2 funud
Sleid 21 - Diolch	Diolch ar ran PDSA.		30 eiliad

Gweithgaredd ymestyn

Mae gweithgareddau ymestyn ar gael ar dudalen lawrlwytho Gwobr Ysgol PetWise.

Addasiadau ar gyfer anghenion ychwanegol

Gellir golygu'r PowerPoint fel y gellir newid y ffontiau a'u gwneud yn fwy o faint.
Gellid newid y sgrin/lliw cefndir hefyd os oes angen.

Efallai y bydd angen goruchwyliaeth oedolyn ar rai plant.

Amlinellwch beth fydd yn digwydd yn y sesiwn i blant ag ASD, tynnwch synau o sleidiau a rhagrybuddiwch yr athro am y fideos.

Gwerthusiad

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585